



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Aseu'r Risg o Niwed i Blant a Rhieni mewn Achosion Plant Cyfraith Breifat

Cynllun Gweithredu

Mehefin 2020



Cynnwys

Rhagair Gweinidogol	2
Egwyddorion Dylunio ar gyfer Achosion Plant Cyfraith Breifat	5
Diwygio Sylfaenol i'r Rhaglen Trefniadau Plant	7
Cryfhau Llais y Plentyn	9
Diogelwch a Chymorth yn y Llys	10
Cyfathrebu, cydlynu, dilyniant a chysondeb	13
Adnoddau	15
Rhaglen Cyflawnwyr Cam-drin Domestig (DAPP)	17
Achrediad Gweithwyr Cymdeithasol	18
Monitro a Throsolwg	19
Mwy o ymchwil	20

Rhagair Gweinidogol



Rwyf yn croesawu cyhoeddi'r adroddiad terfynol ar asesu'r risg o niwed i blant a rhieni mewn achosion plant cyfraith breifat, ac rwyf yn hynod ddiolchgar i holl aelodau'r panel am yr amser a'r arbenigedd y maent wedi ei roi i MoJ er mwyn cwblhau hyn. Rwyf wedi ystyried casgliadau'r panel yn ofalus ac rwyf yn benderfynol o gymryd camau er mwyn gwella profiad dioddefwyr cam-drin domestig yn ein llysoedd teulu - mae'r cynllun yma yn nodi'r camau cyntaf y byddwn yn eu cymryd ar unwaith er mwyn gwneud hynny.

Mae adroddiad y panel yn bwrw goleuni ar brofiadau dioddefwyr cam-drin domestig mewn achosion plant cyfraith breifat. Mae'n amlwg bod problemau yn bodoli ers peth amser yn y system drwyddi draw sydd, yn achos yr unigolion yma, wedi effeithio ar eu profiad.

Bob blwyddyn mae miloedd o achosion yn mynd drwy'r system cyfraith teulu preifat. Mae ymchwil wedi dangos bod tua 50-60% o achosion gorchmynion trefniadau plant yn ymwneud â honiadau o gam-drin domestig. Yn yr adroddiad, mae dioddefwyr camdriniaeth yn adrodd eu bod wedi teimlo eu bod wedi eu bychanu, eu neilltuo ac wedi wynebu mwy o risg o ganlyniad i fethiannau'r system. Mae'n amlwg bod angen gwneud gwelliannau, ac mae'n hanfodol, nid yn unig er mwyn y dioddefwyr camdriniaeth yma, ond er mwyn eu plant a chenedlaethau i ddod hefyd ein bod yn gwneud y newidiadau sydd eu hangen er mwyn cyflawni hyn.

Mae gan y llywodraeth yma ymrwymiad cadarn a diwyro i sicrhau bod dioddefwyr cam-drin domestig yn cael eu hamddiffyn yn well. Bydd y Bil Cam-drin Domestig, sydd ar hyn o bryd yn mynd drwy Dŷ'r Cyffredin, yn ein galluogi i wneud rhai o'r newidiadau y gelwir amdanynt yn adroddiad y Panel, ynghyd â mesurau eraill sydd yn helpu i sicrhau bod gan dioddefwyr yr hyder i adrodd am eu profiadau, yn gwybod y bydd y system gyfiawnder ac

asiantaethau eraill yn gwneud popeth y gallent i'w gwarchod a'u cefnogi nhw a'u plant ac i ddelio â'u camdrinwyr.

Yn ogystal â'r darn yma o ddeddfwriaeth sydd yn garreg filltir, rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi yn ehangach mewn cymorth i ddiodefwyr cam-drin domestig, yn cynnwys £35 miliwn yn cael ei ddarparu gyda'r Bil er mwyn cefnogi diodefwyr a'u plant, a £67 miliwn o gyllid ychwanegol yr ydym wedi ei gyhoeddi er mwyn cefnogi diodefwyr cam-drin domestig, trais rhywiol, caethwasiaeth fodern a phlant agored i niwed a'u teuluoedd yn ystod y pandemig presennol.

Mae'r Cynllun Gweithredu yma yn nodi'r newidiadau y byddwn yn eu gwneud ar unwaith fel ymateb i adroddiad y panel, yn cynnwys gwahardd croesholi diodefwyr gan gyflawnwyr camdriniaeth a chyflawnwyr camdriniaeth honedig, ac yn deddfu roi i ddiodefwyr cam-drin domestig dybiaeth o gymhwysedd i gael mesurau arbennig yn y llys teulu.

Ond mae angen i'r newid fynd ymhellach na hynny. Mae nifer o'r problemau a nodwyd yn yr adroddiad yn rhai sydd wedi bodoli ers amser, yn faterion systematig sydd angen diwygio mwy sylfaenol. Mae natur wrthwynebol ein system cyfiawnder teulu yn fater sydd wedi cael ei amlygu gan nifer o rai sydd â phrofiad uniongyrchol o'r system, fel rhwystr i ddiwygio ystyrion, yn adroddiad y panel ac mewn adolygiadau allanol blaenorol o'n llysoedd teulu. Felly rwyf yn falch o gyhoeddi ein hymrwymiad yn y Cynllun Gweithredu yma i dreialu dull ymchwiliol newydd mewn achosion plant cyfraith breifat, yr ydym yn amcanu at ei roi ar waith yn ein cynlluniau peilot ar gyfer y Llys Cam-drin Domestig Integredig yn ddiweddarach eleni.

Rydym wedi gweithio ledled y system cyfiawnder teulu, ac yn ehangach ledled y llywodraeth, er mwyn sicrhau bod yr angen am newid a amlygwyd yn yr adroddiad yma yn cael ei gydnabod ac yr ymatebir i hynny. Byddir yn gofyn i'r Bwrdd Cyfiawnder Teulu, sydd yn cynnwys uwch arweinwyr ledled y System Cyfiawnder Teulu gyda gweinidogion MoJ a DfE yn gyd-gadeiryddion, oruchwylio'r bores er mwyn gwireddu'r agenda yma a bydd yn cyhoeddi cynllun gweithredu manylach yn ddiweddarach eleni.

Gyda'n gilydd rydym yn ymrwymedig i gymryd camau ar unwaith ac i ddiwygio mwy hirdymor, er mwyn sicrhau bod y system yn rhoi cefnogaeth lwyr i ddiodefwyr cam-drin domestig neu sydd yn agored i niwed fel arall, ac sydd yn darparu'r deilliannau priodol iddyn nhw a'u plant.



Alex Chalk AS

Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol

Egwyddorion Dylunio ar gyfer Achosion Plant Cyfraith Breifat

Argymhellion

Mae'r panel yn argymhell mai'r canlynol ddylai fod yn egwyddorion dylunio elfennol ar gyfer achosion plant cyfraith breifat:

- Diwylliant o ddiogelwch a gwarchodaeth rhag niwed
- Dull sydd yn ymchwiliol ac sydd yn datrys problemau
- Adnoddau sydd yn ddigonol ac a ddefnyddir yn fwy cynhyrchiol
- Gyda dull mwy *cydlynol* rhwng gwahanol rannau y system

Yn ogystal â sicrhau bod anghenion a dymuniadau plant yn rhan ganolog o achosion plant cyfraith breifat, mae'r panel yn argymhell bod gweithdrefnau yn cael eu dylunio gydag anghenion ymgyfreithwyr drostynt eu hunain, a phryderon ynghylch cam-drin domestig a materion diogelwch eraill, yn ystyriaethau canolog.

Mae'r panel yn argymhell mabwysiadu datganiad ymarfer ar gyfer achosion sydd yn datgan materion ynghylch cam-drin domestig neu risgiau eraill o niwed.

Mae'r panel yn argymhell bod y rhagdybiaeth o gyfranogiad rhieni yn cael ei hadolygu ar frys er mwyn mynd i'r afael â'i effeithiau niweidiol.

Y camau nesaf

Mewn partneriaeth â'r holl bartneriaethau yn y system cyfiawnder teulu, byddwn **yn dylunio datganiad ymarfer** sydd yn adeiladu ar y geiriad sylfaenol a ddarparwyd gan y Panel. Byddwn yn cysylltu â grwpiau llywodraethu traws-system presennol er mwyn sicrhau bod hynny yn cael ei roi ar waith yn effeithiol a'i fod yn ysgogi newid diwylliannol yn y system drwyddi draw.

O dan arweiniad y Bwrdd Cyfiawnder Teulu, byddwn yn **adolygu'r 'rhagdybiaeth o gyfranogiad rhieni'** sydd yn gymwys mewn achosion plant cyfraith breifat penodol ac sydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r llys ragdybio bod cyfranogiad y ddau riant yn cyfrannu at les y plentyn, oni bai y byddai cyfranogiad y riant hwnnw yn arwain at risg y byddai'r plentyn yn dioddef niwed. Bydd ein hadolygiad yn ystyried y bydd hynny yn gymwys nid yn unig i ddioddefwyr cam-drin domestig, ond pob plentyn a riant yn yr achosion plant cyfraith breifat y mae'n gymwys iddynt. Rydym yn cydnabod bod yna fwy o waith i'w

wneud er mwyn ymchwilio i sut y sefydlir y cydbwysedd rhwng lles plant a rhieni sydd yn ddiodefwr a hawliau plant a rhieni i gael bywyd teuluol.

Byddwn yn **peilota mabwysiadu dull mwy integredig rhwng gwahanol rannau o'r system gyfiawnder** fel rhan o gynlluniau peilot y Llys Cam-drin Domestig Integredig (IDAC).

Rydym yn **rhwymedig i leihau lefelau anghysondeb** sydd yn bodoli yn y system gyfiawnder teuluoedd ac i ymgorffori arferion gorau mewn achosion pryd bynnag fo hynny yn bosibl, yn cynnwys gweithio gyda'r Byrddau Cyfiawnder Teulu Lleol.

Diwygio Sylfaenol i'r Rhaglen Trefniadau Plant

Argymhellion

Dylai'r llysoedd teulu beilota a darparu Rhaglen Drefniadau Plant ddiwygiedig mewn achosion plant cyfraith breifat.

Dylai'r Rhaglen Trefniadau Plant ymgorffori gweithdrefn ar gyfer adnabod ceisiadau camdriniol a'u rheoli yn gyflym er mwyn dod i gasgliad crynodol.

Dylid darparu gwell cydlyniant rhwng y llysoedd teulu a'r llysoedd troseddol.

Y camau nesaf

Rydym yn rhwymedig i archwilio'r ffordd y gellir gwella'r system bresennol, o ran deilliannau ac o ran diogelu lles y rhai sydd yn cyfranogi.

Byddwn yn **peilota dull diwygiedig drwy gyflawni ymrwymiad manifesto 2019 y Ceidwadwyr i "beilota llysoedd cam-drin domestig integredig 9IDAC) sydd yn mynd i'r afael â materion troseddol a theulu yn gyfochrog"**.

Byddwn hefyd yn **peilota dull mwy ymchwiliol i'r llysoedd teulu**. Drwy wneud hynny byddwn yn archwilio i ba raddau y mae'n bosibl symud oddi wrth y system wrthwynebol bresennol a beth yw'r ffordd orau o gyflawni'r dull tri cham a argymhellwyd gan y Panel, ynghyd ag argymhellion Llywydd y Gweithgor Cyfraith Breifat oedd yn dadlau o blaid gwell brysbennu a gwell teilwra ar gyfer anghenion pob achos, yn cynnwys y rhai sydd yn cynnwys camdriniaeth a mathau eraill o niwed. Byddir yn defnyddio'r gwersi o'r cynlluniau peilot yma er mwyn hysbysu diwygio ehangach, dan arweiniad y Bwrdd Cyfiawnder Teulu.

Drwy'r cynlluniau peilot IDAC, rydym yn amcanu at:

- Leihau trawma ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig, yn cynnwys plant, sydd efallai yn cael ei ddioddef yn ystod achosion;
- Gwella deilliannau i rieni sydd yn dioddef cam-drin domestig a'u plant;
- Cydlynu ac integreiddio cam-drin domestig yn well ledled achosion troseddol a theulu; a
- Lleihau cyfraddau methiannau gorchmynion a dychweliadau i'r llys mewn achosion troseddol a theuluol sydd yn gysylltiedig ag achosion o gam-drin domestig.

Cynlluniau peilot y Llys Cam-drin Domestig Integredig - mwy o fanylion

Bydd y cynlluniau yn archwilio dau ddull:

1. **Dull 'un teulu un barnwr'** pan fo achosion teulu a throreddol penodol sydd yn ymwneud â cham-drin domestig yn cael eu clywed gan yr un barnwr, gyda'r nod o leihau'r angen i ddioddefwyr ailddweud eu straeon a hyrwyddo dull mwy cydlynol o ddelio ag achosion o'r fath rhwng awdurdodaethau.
2. **Dull 'ymchwiliol' yn y llysoedd teulu.** Bydd hynny yn archwilio ffyrdd o symud oddi wrth y system 'wrthwynebol' bresennol er mwyn mabwysiadu y dull tri cham a argymhellwyd gan y panel.

Mewn perthynas â'r pryderon am natur wrthwynebol yr achosion, bydd dull mwy ymchwiliol yn canolbwyntio ar ffyrdd o wella casglu tystiolaeth a'i hasesu yn briodol. Bydd pwyslais penodol yn cael ei roi ar sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed yn effeithiol. Byddwn yn amcanu at daclo problemau yn fwy effeithiol drwy gyfeirio'n well at wasanaethau cymorth, tra bydd cam adolygu yn ystod y cynllun peilot yn amcanu at gynyddu cynaliadwyedd hirdymor a lleihau dychweliadau i'r llys.

Rydym yn bwriadu mabwysiadu dull fesul cam mewn perthynas â'r ddau gynllun peilot. Bydd y **cam cyntaf** yn cynnwys cyfnod o ddylunio a threialu datrysiadau posibl ar raddfa fechan mewn perthynas ag agweddau o'r cynllun peilot manwl.

Yn dilyn hynny bydd yr **ail gam**, sef peilota'r ddau ddull yn llawn, a bydd eu dyluniad yn ystyried canfyddiadau terfynol y cam cyntaf.

Mae'r pandemig Covid-19 yn achosi heriau penodol o ran lansio'r cynllun peilot yma ar unwaith. Mae'r llysoedd teulu a throreddol wedi gorfod addasu'n fawr y ffordd y mae achosion y cael eu prosesu ar hyn o bryd, ac mae canlyniadau unrhyw gynllun peilot a gynhelir o dan amgylchiadau o'r fath yn debygol o fod yn llai cynrychioladol a hysbysol nag y byddent fel arfer. Hefyd, mae llysoedd ac ymarferwyr dan bwysau sylweddol i sicrhau bod cymaint o achosion â phosibl yn cael eu clywed ar hyn o bryd. Felly mae angen i ni adolygu dyddiad cychwyn y cynllun peilot yn ddibynnol ar hyd ac effaith Covid-19, ond byddwn yn dechrau arni cyn gynted â'i bod yn ymarferol a diogel i wneud hynny.

Byddwn yn gweithio gydag ystod o randdeiliaid er mwyn datblygu mwy ar ein cynlluniau peilot, ac yna yn cyhoeddi gwybodaeth ychwanegol a dyddiad cychwyn ar gyfer Cam 1 cyn gynted â bod y sefyllfa bresennol yn caniatáu hynny.

Cryfhau Llais y Plentyn

Argymhellion

Mae'r panel yn argymhell y dylai'r ystod o opsiynau ar gyfer gwranddo ar lais y plentyn, ynghyd ag eiriolaeth, cynrychiolaeth a chymorth i blant gael eu harchwilio yn llawnach fel rhan o'r gwaith o ymhelaethu a pheilota'r Rhaglen Trefniadau Plant ddiwygiedig.

Y camau nesaf

Byddwn yn **treialu llais cryfach i'r plentyn**, fel rhan o ddull ymchwiliol y cynlluniau peilot IDAC (uchod) er mwyn sicrhau bod dymuniadau a safbwyntiau plant yn rhan ganolog o'r broses.

Byddwn hefyd yn **ailasesu dulliau ymgysylltu â phlant, o weithio â seicolegwyr plant ac arbenigwyr eraill** er mwyn deall mwy am sut a phryd mae plant eisiau ymgysylltu â phroses, a darparu eu stori nhw. Wrth ddatblygu hyn byddwn yn defnyddio adroddiad Llywydd y Gweithgor Cyfraith Breifat ar y mater hwn ac yn gofyn iddynt gynghori'r Grŵp Gweithredu Diwygio Cyfiawnder Teulu o ran llwyddo i ddiwygio yn y maes yma.

Diogelwch a Chymorth yn y Llys

Argymhellion

Mae'r panel wedi gwneud nifer o argymhellion mewn perthynas â **mesurau arbennig a chyfarwyddiadau cyfranogi**:

- Dylai'r darpariaethau ym Mil Cam-drin Domestig sydd yn ymwneud â mesurau arbennig mewn llysoedd troseddol ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth ddomestig gael eu hymestyn i lysoedd teulu. Dylai'r darpariaethau gael eu cymhwysu i bob achos pan honnir cam-drin domestig.
- Dylai'r darpariaethau yn y Bil Cam-drin Domestig gael eu diwygio er mwyn gwahardd croesholi uniongyrchol mewn unrhyw achos teulu pan fo yna dystiolaeth o gam-drin domestig (yn cynnwys camdriniaeth gaiff ei gyfaddef neu ei sefydlu), neu pan fo cam-drin domestig yn destun yr achos.
- Pan fo yna honiadau o gam-drin domestig, dylai defnyddio mesurau arbennig fod yn norm ar unrhyw bwynt pan fo'r partïon yn y llys gyda'i gilydd.
- Pan fo yna honiadau o gam-drin domestig, dylid asesu natur fregus dioddefwyr honedig mewn ffordd sydd yn ymwybodol o drawma, a dylid cymhwysu darpariaethau Rhan 3A a PD3AA yn rhagweithiol, yn cynnwys y rhai sydd yn ymwneud â sut y dylid cwestiynu'r partïon a chynnal gwrandawiadau rheolau sylfaenol. Dylid ystyried cyfarwyddiadau cyfranogi er mwyn i'r cyflawnydd honedig roi ei dystiolaeth o bell.
- Dylai ymholiadau diogelu cychwynnol (gan Cafcass/Cafcass Cymru) neu ymchwiliadau (yn ystod cam ymchwiliol y broses ddiwygiedig) gynnwys trafodaethau gyda'r partïon ynghylch yr angen am a'r mathau o fesurau diogelwch y byddai eu hangen efallai ar y partïon yn y llys.
- Dylid datblygu fframwaith o hawliau allweddol er mwyn amddiffyn oedolion a phlant mewn achosion llys teulu, yn seiliedig ar God Ymarfer MoJ ar gyfer Dioddefwyr Troseddau, er mwyn cynnwys ymweliadau ymgwyfarwyddo ac ymateb cydnerth i achosion o dorri diogelwch.

Gwnaeth y Panel nifer o argymhellion mewn perthynas â gwaith gwasanaethau eirioli a chymorth cam-drin domestig arbenigol:

- Fel mater o arfer, dylai IDVAau (Eiriolwyr Trais Domestig Annibynnol), eiriolwyr cam-drin domestig a gweithwyr cymorth iechyd meddwl, fel mater o arferiad, ¹ gael caniatâd i fynd i'r llys gyda'r parti y maent yn eu cynorthwyo.
- Dylai cyfarwyddiadau ymarfer a chanllawiau perthnasol gael eu diwygio er mwyn ymgorffori'r ddarpariaeth hon.

¹ Gallai hynny gynnwys amrywiaeth o bobl/gweithwyr cymorth sydd yn darparu cymorth iechyd meddwl.

- Dylid ymgynghori ag IDVAau, eiriolwyr cam-drin domestig a gweithwyr cymorth iechyd meddwl wrth asesu natur fregus parti at ddibenion Cyfarwyddyd Ymarfer 3AA.
- Dylid archwilio model priodol a'i effeithiolrwydd cost ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth arbenigol ar gyfer dioddefwyr honedig a chyflawnwyr honedig camdriniaeth ddomestig yn yr holl lysoedd teulu.

Argymhellodd y Panel gynnwys mesurau yn y Bil Cam-drin Domestig er mwyn dadwneud y gofyniad 'eithriadol' ar gyfer gorchymyn 91(14) a sefydlwyd yn eglur iawn yn Re P (Canllawiau Adran 91(14)) [1999]. Dylai'r mesurau yma ddiwygio, amnewid neu ategu adran 91(14) mewn ffordd sydd yn cydymffurfio ag Erthygl 6 er mwyn sicrhau bod yr amcanion polisi canlynol yn cael eu darparu yn glir a phendant mewn statud:

- Gellir rhoi gorchmynion 91(14) pan fo rhoi gorchymyn o'r fath er lles y plentyn;
- Gellir rhoi gorchmynion 91(14) pan fo'r llys yn casglu bod dwyn achos neu ymestyn achos yn gyfystyr â cham-drin domestig yn erbyn y rhiant arall;
- Nad yw'n angenrheidiol dangos ceisiadau mynych cyn y gallai'r llys wirioneddol roi gorchymyn o'r fath
- Gall y llys roi gorchymyn o'r fath drosto ei hun;
- Dylid ond rhoi caniatâd i wneud cais am orchymyn trefniadau plant ar ôl rhoi gorchymyn 91(14) pan fo'r ymgeisydd yn darparu tystiolaeth bod yr amgylchiadau ers rhoi'r gorchymyn wedi newid yn sylweddol, a phan na fyddai caniatáu caniatâd yn creu risg o niwed i'r plentyn neu'r rhiant arall.

Mae'r panel hefyd yn argymhell y dylai'r Rhaglen Trefniadau Plant ymgorffori gweithdrefn ar gyfer adnabod ceisiadau camdriniol a'u rheoli yn gyflym er mwyn dod i gasgliad crynoddol. Dylai'r weithdrefn yma gynnwys:

- Dilyniant barnwrol rhwng ceisiadau blaenorol a dilynol, a rhwng gorchmynion adran 91(14) a cheisiadau am ganiatâd i wneud cais;
- Dylai'r llys drin ceisiadau ychwanegol gyda gofal pan fu canfyddiadau blaenorol o gam-drin domestig;
- Dylai'r llys ystyried rhoi gorchymyn adran 91(14) drosto ei hun neu beidio mewn achosion o'r fath;
- Dylai'r llys ystyried drosto ei hun roi gorchmynion ychwanegol sydd yn caniatáu gwarchodaeth rhag aflonyddu neu gamdriniaeth barhaus (e.e. Gorchmynion peidio ag ymyrryd a gorchmynion camau gwaharddedig); a
- Rheoli ceisiadau am ganiatâd i wneud cais er mwyn lleihau eu heffaith ar y rhiant arall neu'r plant.

Y camau nesaf

Byddwn yn **gwahardd croesholi dioddefwyr gan gyflawnwyr a chyflawnwyr camdriniaeth honedig fel rhan o Fil Cam-drin Domestig**. Bydd y gwaharddiad yn cael

ei gymhwyso yn ehangach na dim ond i'r achosion hynny sydd yn ymwneud â cham-drin domestig, bydd hefyd yn gymwys dan amgylchiadau pan fo troseddau penodol wedi cael eu cyflawni megis cam-drin plant a cham-drin plant yn rhywiol a throseddau treisgar eraill.

Byddwn yn **cyflwyno diwygiad gan y Llywodraeth i'r Bil Cam-drin Domestig fel y bydd dioddefwyr cam-drin domestig yn awtomatig yn gymwys i dderbyn mesurau arbennig yn y llys teulu.**

Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder a GLITEM yn **adolygu'r data ar geisiadau am fesurau arbennig** gan ddefnyddio'r gwasanaeth C100 ar-lein ac yn **asesu beth fwy ellid ei wneud er mwyn sicrhau bod partïon yn ymwybodol o'u hawl i wneud cais am fesurau arbennig.**

Rydym yn gwahodd Llywydd yr Adran Deulu i ystyried **diwygio cyfarwyddiadau ymarfer er mwyn sicrhau bod IDVAau, eiriolwyr cam-drin domestig ac eiriolwyr iechyd meddwl yn cael bod gyda'r parti y maent yn ei gefnogi yn y llys.**

Rydym yn **cytuno bod angen i'r gyfraith fod yn gliriach ynghylch gorchmynion gwahardd**, er mwyn sicrhau bod y defnydd o a.91(14) ar gael i rieni a phlant er mwyn eu gwarchod pan fyddai mwy o achosion yn achosi niwed iddynt, yn arbennig pan allai achos fod yn fath o gam-drin domestig. **Bydd y Llywodraeth ar unwaith yn archwilio p'un a ellir cyflawni'r nod hwnnw orau drwy ddiwygio'r Bil Cam-drin Domestig, drwy ddeddfwriaeth sylfaenol arall, neu drwy ddulliau nad ydynt yn ddeddfwriaethol.**

Cyfathrebu, cydlynu, dilyniant a chysondeb

Argymhellion

Dylid sefydlu mecanweithiau ffwythiannol ar gyfer cyfathrebu, cydlynu, dilyniant a chysondeb ar lefel genedlaethol a lleol. Mae'r panel yn credu y dylid sefydlu mecanweithiau lefel genedlaethol o dan nawdd Llywydd yr Adran Deulu. Dylai'r Barnwyr Teulu Dynodedig oruchwylio trefniadau lefel lleol i weithredu mecanweithiau a phrosesau cenedlaethol.

Hyfforddiant ychwanegol y system gyfiawnder teulu.

Dylai heddluoedd, ynghyd â Llysoedd Teulu a chynrychiolwyr polisi roi ystyriaeth frys i sut y gellid ariannu datgeliad yr heddlu pan na fo'r partion yn cael cymorth cyfreithiol ac nad ydynt fel arall yn gallu ariannu eu hunain.

Y camau nesaf

Mae gan Yr Arglwydd Prif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd gyfrifoldeb statudol am hyfforddi'r farnwriaeth yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Coleg Barnwrol yn ymgymryd â'r ddyletswydd honno ar eu rhan.

Mae'r Coleg Barnwrol yn croesawu'r argymhellion mewn perthynas â'r hyfforddiant i'r farnwriaeth a nodwyd yn adroddiad y Panel ac mae'n dal yn rhwymedig i **barhau i adolygu a gwella effaith yr hyfforddiant a ddarperir i'r farnwriaeth, yn cynnwys ynadon**, wrth fwrw ymlaen â mentrau newydd ac wrth i newid diwylliannol gael ei ymgorffori. Er enghraifft, mae'r **Coleg wedi cyflwyno hyfforddiant diweddarar ar gyfer ynadon**, yn unol â gweddill y farnwriaeth teulu, sydd yn **cynnwys darparwyr trydydd sector ac sydd yn amcanu at wella ymarfer mewn achosion o gam-drin domestig**. Hefyd, **mae deunyddiau newydd ar gyfer barnwyr teulu sydd yn mynd i'r afael â materion cam-drin domestig** yn cael eu peilota fel rhan o hyfforddiant.

Rydym yn cefnogi'r **cynigion ynghylch mwy o hyfforddiant** sydd yn mynd i'r afael â chredoau a materion diwylliannol, yn ogystal ag argaeledd hyfforddiant traws-broffesiwn, a byddwn yn **treialu canllawiau a gwell hyfforddiant ledled y system gyfiawnder teulu yng Nghymru a Lloegr**.

Rydym yn gweithio gyda NPCC a rhanddeiliaid eraill er mwyn **adolygu canllawiau ar gyfer heddluoedd ynghylch ffioedd ar gyfer datgelu tystiolaeth mewn perthynas ag achosion sydd yn ymwneud â cham-drin domestig.**

Adnoddau

Argymhellion

Argymhellodd y panel y dylid buddsoddi mwy mewn nifer o feysydd:

- Yr adnoddau llys a'r adnoddau barnwrol sydd ar gael ar gyfer achosion plant cyfraith breifat.
- Cafcass a Cafcass Cymru
- Ystad y llys teulu
- Cymorth cyfreithiol
- Cyllid ar gyfer asesiadau arbenigol.
- Rhaglenni Cyflawnwyr Cam-drin Domestig yng Nghymru a Lloegr
- Canolfannau cyswllt dan oruchwyliaeth
- Darpariaeth addysgol a therapiwtig mewn perthynas â cham-drin domestig i rieni mewn achosion plant cyfraith breifat
- Gwasanaethau cymorth cam-drin domestig a cham-drin plant arbenigol.

Y camau nesaf

Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i fuddsoddi yn ehangach mewn cymorth i ddiodefwyr cam-drin domestig, yn cynnwys £35 miliwn yn cael ei ddarparu gyda'r Bil Cam-drin Domestig er mwyn cefnogi diodefwyr a'u plant, a £67 miliwn o gyllid ychwanegol yr ydym wedi ei gyhoeddi er mwyn cefnogi diodefwyr cam-drin domestig, trais rhywiol, caethwasiaeth fodern a phlant agored i niwed a'u teuluoedd yn ystod y pandemig presennol - mae hynny yn cynnwys arian ar gyfer y cynlluniau peilot IDAC.

Diwygiwyd **Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Gweithdrefn) 2012** ym Mai 2020 er mwyn **ehangu'r gofynion tystiolaeth ar gyfer diodefwyr cam-drin domestig sydd yn gwneud cais am gymorth cyfreithiol**. Mae hynny yn ei gwneud yn haws i ddiodefwyr, neu'r rhai sydd yn wynebu risg o ddiodef cam-drin domestig gael a darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen er mwyn cael mynediad at gymorth cyfreithiol, yn ogystal â lleihau'r risg bod gwir ddiodefwyr yn methu cael y dystiolaeth sydd ei hangen.

Rydym eisoes wedi cyhoeddi'r **Cynllun Gweithredu Cymorth Cyfreithiol**, ac roedd nifer o'r ymrwymadau yma yn archwilio ymyrraeth gynnar a'r rôl y gall technoleg ei chwarae o ran helpu pobl i adnabod a datrys eu materion cyfreithiol, **ac rydym yn rhwymedig i roi ystyriaeth ofalus i'r achos o blaid ehangu cymorth cyfreithiol cynnar**.

Bydd MoJ a GLITEM yn ystyried beth yw'r ffordd orau o gefnogi a grymuso ymgyfreithwyr drostynt eu hunain mewn achosion plant cyfraith breifat.

Rhaglen Cyflawnwyr Cam-drin Domestig (DAPP)

Argymhellion

Adolygiad o'r ddarpariaeth bresennol o DAPP er mwyn sicrhau eu bod yn canolbwyntio'n effeithiol ar leihau niwed i blant a theuluoedd yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig, ac sydd yn seiliedig ar yr egwyddorion dylunio sydd yn tanategu ein holl argymhellion.

Dylai DAPP fod ar gael yn fwy eang yng Nghymru a Lloegr a dylent ganiatáu hunangyfeirio ar gyfer rhieni mewn achosion plant cyfraith breifat.

Y camau nesaf

Byddwn yn cynnull gweithgor fydd yn cynnwys MoJ, Cafcass/Cafcass Cymru, Llywodraeth Cymru, y farnwriaeth, Respect, Cymorth i Ferched Cymru, Ffederasiwn Cymorth i Ferched Lloegr, a'r Comisiynydd Cam-drin Domestig a Dioddefwyr er mwyn **adolygu a gwerthuso DAPP, gan ddefnyddio'r gwerthusiad sydd yn bodoli a'r gronfa dystiolaeth. Bydd deiliant yr adolygiad yn sail ar gyfer manyleb comisiynu newydd, yn cynnwys yr angen am wasanaethau ychwanegol y tu hwnt i DAPP.**

Bydd y Gweithgor yn asesu a ddylid diddymu'r gofyniad y gellir ond gwneud atgyfeiriad DAPP drwy orchymyn llys ac ystyried caniatáu i gyflawnwyr hunangyfeirio i'r DAPP, ac roedd y ddau faes yma wedi cael eu nodi fel rhai diffygiol yn y system bresennol.

Bydd y Gweithgor hefyd yn **ystyried sut y gellid gwneud i'r cynllun DAPP presennol fod ar gael i ferched.** Bydd hynny yn golygu y gall holl gyflawnwyr camdriniaeth sydd eisiau cael eu hadsefydlu gael mynediad i'r cymorth sydd ei angen arnynt i wneud hynny.

Achrediad Gweithwyr Cymdeithasol

Argymhellion

Dylai gweithwyr cymdeithasol sydd yn cynnal asesiadau ar gyfer achosion plant cyfraith breifat yng Nghymru gael hyfforddiant ar safon Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Grŵp 3.

Dylai gweithwyr cymdeithasol sydd yn cynnal asesiadau ar gyfer achosion plant cyfraith breifat yn Lloegr fod yn ymarferwyr plant a theuluoedd achrededig.

Dylai cynnwys yr hyfforddiant achrededig yng Nghymru a'r arholiadau achredu yn Lloegr gael eu hadolygu gan arbenigwyr cam-drin domestig er mwyn helpu i sicrhau bod y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol yn cael eu hasesu.

Y camau nesaf

Bydd MoJ a DfE, ynghyd â Llywodraeth Cymru, Cafcass, Cafcass Cymru, Gweithwyr Cymdeithasol Awdurdodau Lleol a rhanddeiliaid perthnasol eraill yn **gweithio er mwyn deall sut y gallai'r cynllun achredu a argymhellir weithio, a pha elfennau fyddai eu hangen er mwyn sicrhau y gellir ei roi ar waith yn llwyddiannus.**

Monitro a Throsolwg

Argymhellion

Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder weithio gyda GLITEM, Cafcass a Cafcass Cymru er mwyn datblygu a gweithredu dull cyson a chynhwysfawr o gasglu data gweinyddol am achosion sydd yn codi materion cam-drin domestig, cam-drin plant yn rhywiol a phryderon eraill ynghylch diogelu.

Dylid sefydlu tîm monitro cenedlaethol yn swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig er mwyn cynnal trosolwg ac adrodd yn rheolaidd ar berfformiad llysoedd teulu o ran gwarchod plant a dioddefwyr rhag cam-drin domestig a risgiau o niwed arall mewn achosion plant cyfraith breifat.

Dylai Awdurdodau Lleol a Byrddau Diogelu Rhanbarthol Cymru gynnwys llysoedd teulu mewn adolygiadau o wersi lleol (yn Lloegr), adolygiadau o ymarfer plant (yng Nghymru) ac adolygiadau o ddynladdiadau domestig, pan fo'r teuluoedd dan sylw wedi bod yn gysylltiedig ag achosion plant cyfraith breifat. Dylai hynny gynnwys gofyn am gyfraniadau i'r adolygiad gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Cafcass neu Cafcass Cymru, ac adolygiad o ffeil achos y llys teulu.

Y camau nesaf

Rydym wedi gwahodd y **Comisiynydd Cam-drin Domestig annibynnol a'r Comisiynydd Dioddefwyr i fonitro achosion cyfraith teulu sydd yn ymwneud â dioddefwyr DA yn y llysoedd teulu, ac i gyhoeddi'r adroddiadau yma**, fel rhan o'u rôl yn monitro'r gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr yng Nghymru a Lloegr.

Mae Cafcass a Cafcass Cymru wedi symud data achosion i blatfform data diogel a dienw. Mae'r data ar gael i ymchwilyr, yn ddarostyngedig i gais a chymeradwyaeth, allai gynorthwyo ymchwil a chasglu tystiolaeth ansoddol. Ar hyn o bryd mae gwaith yn cael ei wneud ar **system reoli achosion electronig newydd Cafcass**, ac fel rhan o hynny rydym yn ystyried pa ddata ychwanegol ellid ei gasglu.

Bydd MoJ yn gwahodd y Swyddfa Gartref (ar gyfer Adolygiadau o Ddynladdiadau Domestig), DfE (ar gyfer adolygiadau dysgu lleol) a Llywodraeth Cymru (ar gyfer Adolygiadau o Ymarfer Plant) i weithio gyda'r Llys Teulu a Cafcass/Cafcass Cymru er mwyn cytuno ar y ffordd orau o roi'r argymhellion yn y meysydd yma ar waith.

Mwy o ymchwil

Argymhellion

Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gomisiynu astudiaeth ymchwil annibynnol, systematig, ôl-weithredol ar weithredu'r CAP presennol, PD12J ac adran 9(14) mewn achosion pan fo honiadau o gam-drin domestig, cam-drin plant yn rhywiol a throseddau difrifol eraill yn cael eu gwneud, er mwyn darparu gwaelodlin cyn diwygio cyn gweithredu'r diwygiadau a argymhellwyd gan y panel.

Dylai'r Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant gynnal adolygiad cenedlaethol statudol seiliedig ar ymarfer o achosion cam-drin domestig mewn achosion plant cyfraith breifat yn ystod y 12 mis nesaf er mwyn darparu gwaelodlin, gydag adolygiad dilynol ôl-ddiwygio bob 2–3 blynedd er mwyn edrych ar newidiadau mewn ymarfer; a dylai Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru gomisiynu adolygiad cyffelyb yng Nghymru.

Dylai unrhyw gynlluniau peilot ar gyfer profi argymhellion y panel mewn perthynas â rhaglen Trefniadau Plant gael eu gwerthuso'n drylwyr gan ddefnyddio dulliau ymchwil ansoddol a meintiol, yn cynnwys adolygiad o ffeiliau, gorchmynion a dyfarniadau llys.

Dylai cylch gorchwyl y corff goruchwyllo cenedlaethol yr argymhellwyd y dylid ei sefydlu uchod gynnwys comisiynu a/neu gynnal ymchwil rhagolygol a pharhaus i'r gwaith o weithredu'r system ddiwygiedig ar gyfer materion plant cyfraith breifat, a dylai ei gyllid fod yn ddigonol er mwyn ei alluogi i gyflawni'r swyddogaeth honno yn effeithiol.

Y camau nesaf

Ar hyn o bryd mae MoJ yn **cwmpasu ac yn bwriadu comisiynu astudiaeth ar weithredu'r CAP, PD12J a'r a.91(14) presennol mewn achosion pryd y gwnaethpwyd honiadau o niwed**, fel yr argymhellwyd gan y panel. Bydd hynny yn ystyried natur cam-drin domestig a sut mae hynny yn croestorri â hil, dosbarth, oedran a rhywioldeb.

Fel y nodwyd uchod, bydd y cynlluniau peilot IDAC sydd yn profi ymagwedd newydd tuag at CAP mewn achosion sydd yn ymwneud â cham-drin domestig yn cael eu **gwerthuso yn llawn a thrwyadl**.

Bydd MoJ yn gwahodd y Panel Adolygu Arferion Diogelu Plant i gynnal adolygiad cenedlaethol, statudol seiliedig ar ymarfer o achosion cam-drin domestig mewn achosion plant cyfraith breifat.

Asesu'r Risg o Niwed i Blant a Rhieni mewn Achosion Plant Cyfraith Breifat
Cynllun Gweithredu



© Hawlfraint y Goron 2020

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio ble nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Ble yr ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint o dan sylw.